


2.3. Rhagolwg o Adrannau

Gellir gweld rhagolwg o adrannau er mwyn i chi weld sut mae'ch tudalen yn edrych a gweithio. Dylech bob amser edrych ar ragolwg o'ch tudalen cyn cymeradwyo cynnwys.

Gweld Rhagolwg o Adran

1. O'r Site Structure, dewch o hyd i'r adran y mae arnoch eisiau gweld rhagolwg ohoni.
2. Cliciwch ar y botwm 'Actions' ar y dde i'r adran yr ydych wedi'i dewis, a bydd y ddewislen 'Actions' yn ymddangos. Dewiswch 'Preview section'.



3. Bydd rhagolwg o'r dudalen yn agor mewn ffenestr (neu dab) newydd.


4. Os nad yw'r rhagolwg yn ymddangos:

a. Yn Firefox:

- i. edrychwch ar frig ffenestr eich porwr am neges sy'n dweud "Firefox prevented this site from opening a popup window".




- ii. Cliciwch ar y botwm 'Options' ar y dde a bydd dewisiadau yn ymddangos:



- iii. Cliciwch ar "Allow popups for cms.aber.ac.uk", a dylai eich rhagolwg agor.
- iv. Dim ond y tro cyntaf y byddwch yn edrych ar ragolwg o'ch cyfrifiadur y bydd hyn yn digwydd

b. Yn Chrome:

- i. edrychwch ar ddiwedd bar cyfeiriad y porwr am symbol "Pop-up Blocked".



- ii. Cliciwch ar y symbol a bydd dewisiadau yn ymddangos:



- iii. Dewiswch "Always allow pop-ups from cms.aber.ac.uk" a chlicio ar Done. Adnewyddwch y dudalen a cheisiwch edrych ar y rhagolwg eto.
 - iv. Dim ond y tro cyntaf y byddwch yn edrych ar ragolwg o'ch cyfrifiadur y bydd hyn yn digwydd
5. Sicrhewch fod y rhagolwg yn edrych fel y byddech yn ei ddisgwyl.
 6. Cliciwch ar y dolenni i wneud yn siŵr eu bod yn cysylltu â'r tudalennau iawn
 7. Os ydych chi'n gweld pethau sydd angen eu newid, gallwch adael y ffenestr/tab rhagolwg ar agor er mwyn i chi ddod yn ôl ato ar ôl gwneud y newidiadau.
 8. Ar ôl gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol, cliciwch ar y botwm 'Save changes' i gadw'r cynnwys cyn adnewyddu'r ffenestr/tab rhagolwg er mwyn i chi allu gweld y newidiadau yno. Gallwch adnewyddu'r dudalen drwy glicio ar y botwm adnewyddu sydd fel rheol i'r chwith neu i'r dde o far cyfeiriad y porwr. Neu, bydd pwysu'r fysell F5 ar eich bysellfwrdd yn adnewyddu'r dudalen.
 9. Pan fyddwch yn fodlon gyda'r rhagolwg o'r adran, gallwch fynd ymlaen i gymeradwyo'r cynnwys. Gweler [Taflen Wybodaeth 6](#) i gael rhagor o wybodaeth am y broses Gymeradwyo.